Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 23 MEHEFIN 2017, ym MedRus 1, Penbryn.

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd, ar wahân i gofnod 101); Mrs Elizabeth France, Dirprwy Ganghellor (Cadeirydd, i gofnod 101); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor; Dr Timothy Brain, Trysorydd; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol) (ar wahân i gofnod 101); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol) (ar wahân i gofnod 101); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (ar wahân i gofnod 101); Ms Anne Davies; Mrs Janet Davies; Mr Keith Evans (ar wahân i gofnod 110); Mr Richard John; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts (ar wahân i gofnod 101); Dr Hazel Davey; Yr Athro Neil Glasser; Dr Jenny Mathers; Ms Jackie Sayce; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; a Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid; Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (tan gofnod 110); Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio) (tan gofnod 115); Mrs Esther Prytherch, Pennaeth y Swyddfa Gyfathrebu; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Bruce Wight, Darpar-Swyddog Datblygu UMAber; Mr Gwion Llwyd Williams, Swyddog Diwylliant Cymru UMAber a Darpar-Lywydd UMCA; a Ms Kath Williams, Darpar Aelod Staff An-academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth.

101. PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR

NODWYD

1. Hysbysebwyd swydd Cadeirydd y Cyngor yn eang rhwng 02 a 18 Mai 2017. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ar 24 Mai i gytuno ar restr fer o ymgeiswyr, ac fe gafodd yr unigolion hynny eu cyfweld ar 16 Mehefin.

2. Roedd y Pwyllgor Enwebiadau yn unfrydol yn argymell penodi Dr Emyr Roberts yn Gadeirydd nesaf y Cyngor. Ers hynny, cafwyd sicrwydd gan Dr Emyr Roberts na chredai bod unrhyw beth yn rhwystro ei benodi.

PENDERFYNWYD

3. Penodi Dr Emyr Roberts yn Gadeirydd nesaf y Cyngor am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Ionawr 2018.

102. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod yn rhan o'r drefn ymgyfarwyddo cyn dod yn aelodau o'r Cyngor:

1. Bruce Wight, Darpar-Swyddog Datblygu UMAber;

2. Gwion Llwyd Williams, Darpar-Lywydd UMCA; a

3. Kath Williams, Darpar aelod staff an-academaidd.

2. Llongyfarchion

1. Llongyfarchwyd Dr Emyr Roberts ar ei benodi'n Gadeirydd nesaf y Cyngor.

2. Roedd Keith Evans wedi'i ethol i gynrychioli ward Llandysul ar Gyngor Sir Ceredigion yn yr etholiadau lleol a gynhaliwyd ar 04 Mai 2017.

3. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Dr John Corton, Cynorthwyydd Ymchwil Ôl-Ddoethurol yn IBERS;

2. Dr Bernard Delagneau, cyn-Ddarlithydd Marchnata yn yr Adran Economeg Amaethyddol;

3. Dorothy Evans, cyn ysgrifenyddes yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd;

4. Dr Michael Richard Lascelles Johnston, cyn Diwtor Academaidd yn IBERS;

5. Rosemary Law, cyn Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Cyfrifiadureg;

6. Y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, Cyn Brif Weinidog Cymru a Chymrawd Anrhydeddus;

7. Yr Athro Vernon Morgan, Cymrawd Anrhydeddus;

8. Emily Price, myfyrwraig yn y drydedd flwyddyn;

9. Jacob Pugh Thomas, cyn borthor yn Llandinam a Llanbadarn;

10. Yr Athro David Wulstan, Athro Emeritws Cerddoriaeth ac Athro er Anrhydedd yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd.

4. Cworwm

1. Yn unol ag Ordinhad 15, y cworwm angenrheidiol i gyfarfodydd y Cyngor yw hanner union aelodau'r corff llywodraethu i'r rhif crwn nesaf i fyny, cyhyd â bod yr aelodau annibynnol yn y mwyafrif.

2. Oherwydd nifer yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd, nid oedd yr aelodau annibynnol yn y mwyafrif ac felly nid oedd cworwm i'r cyfarfod. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.1, byddai materion y cyfarfod yn cael eu cyflawni ar sail gynghorol tan y ceid cworwm.

103. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Cafwyd datganiad gan Dr Timothy Brain, yr Athro Neil Glasser, a Mr Ian MacEachern ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod. Er na fyddai'n rhaid iddynt ymesgusodi o rannau perthnasol y cyfarfod, ni fyddent yn cyfrannu at y trafodaethau penodol hynny nac yn cael pleidleisio pe byddai angen.

104. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 07 a 26 Ebrill 2017 (COU1617-129).

CYNGHORWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

105. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1617-130).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

106. GOHEBIAETH

1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Drafft Hysbysiad Cydymffurfio

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol), yn ymgorffori llythyr dyddiedig 09 Mehefin 2017 a dderbyniodd yr Is-Ganghellor oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg (COU1617-132).

NODWYD

1. Mae'r llythyr a'r hysbysiad drafft yn ymwneud â'r fframwaith cyfreithiol a fydd yn pennu dyletswyddau ar sefydliadau i gydymffurfio â'r safonau statudol yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Byddai'r cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd Prifysgol Aberystwyth yn dod i ben ar 04 Awst 2017, a disgwylir yr Hysbysiad terfynol erbyn diwedd mis Medi 2017.

2. Byddai angen i ymateb y Brifysgol i'r ymgynghoriad ystyried elfennau ymarferol a chostau cysylltiedig y dyletswyddau newydd a gyflwynir. Yn y cyd-destun hwn, gofynnodd yr aelodau a oedd y Brifysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg gyfredol, gan gynnwys cof cyfieithi.

CYNGHORWYD

3. Y byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn paratoi ymateb i'r Hysbysiad Cydymffurfio drafft ac, yn dilyn ymgynghori â Phwyllgor Strategaeth y Gymraeg a Dr Emyr Roberts, y byddai Cadeirydd y Cyngor yn cymeradwyo ymateb terfynol ar ran y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

4. Y dylid adolygu'r defnydd a wneir o gof cyfieithu ym Mhrifysgol Aberystwyth i sicrhau bod y dechnoleg yn cael ei defnyddio i'r eithaf (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

2. Ymgynghoriad ar Weithdrefnau i Ymdrin â Chwynion yn erbyn Sefydliadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori cylchlythyr CCAUC W17/12HE 'Ymgynghoriad ar weithdrefnau i ymdrin â chwynion yn erbyn sefydliadau' (COU1617-133).

NODWYD

1. Ar 09 Mehefin 2017, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr ymgynghorol yn gofyn ynglŷn â'u gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn sefydliadau. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion oedd 21 Gorffennaf.

CYNGHORWYD

2. Y dylai Gweithrediaeth y Brifysgol baratoi ymateb i'r cylchlythyr, i'w ystyried a'i gymeradwyo gan Gadeirydd y Cyngor ar ran y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

107. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1617-173).

NODWYD

1. Yn dilyn trychineb y tân yn Nhŵr Grenfell yn Llundain ar 14 Mehefin 2017, roedd yr Adran Cymunedau a Llywodraethau Lleol wedi dweud y dylid archwilio adeiladau tebyg sydd hefyd yn defnyddio cladin. Cafwyd cyngor tebyg gan Universities UK.

2. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r ystyriaethau cynnar o ganlyniad i dân Tŵr Grenfell, y trefniadau diogelu rhag tân a weithredir ym Mhrifysgol Aberystwyth, a'r manylion cysylltiedig am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i osod cladin allanol ar bont Adeilad Cledwyn.

3. Roedd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) yn sefydlu Siarter a Fforwm Llety Myfyrwyr. Eu bwriad yw gwella cysylltiadau â landlordiaid lleol, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael llety addas, sy'n cyflawni gofynion diogelwch rhag tân.

108. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1617-134).

NODWYD

1. Roedd yr Is-Ganghellor ac Ysgrifennydd y Brifysgol wedi cyfarfod â'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, y darpar-Ganghellor, yn Llundain ar 21 Mehefin 2017; a chyda Ben Lake AS y diwrnod canlynol. Roedd trefniadau'n cael eu gwneud yn awr i Ben Lake AS ymweld â'r Brifysgol.

2. Roedd canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) wedi'u cyhoeddi'r diwrnod blaenorol. Er nad oedd Aberystwyth wedi cymryd rhan, byddai'r Brifysgol yn defnyddio'r wybodaeth wrth benderfynu cymryd rhan ai peidio yn y dyfodol.

3. Roedd rhestr fer wedi'i pharatoi ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cyllid Dros-dro. Byddai'r ymgeiswyr yn cael eu cyfweld ar 29 Mehefin 2017.

109. Y CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1617-135); ac

2. Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol yn ymgorffori dogfennau, yn cynnwys: cylch gorchwyl arfaethedig i Grŵp CGC (SIP) i Arolygu'r Cyngor; diweddariad gan yr Is-Ganghellor ar brosesau allweddol; a chofnodion y Grŵp Arolygu a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017 (COU1617-170).

NODWYD

3. Yn y Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 26 Ebrill 2017, roedd yr aelodau wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) i'r sefydliad. Ymhlith y Newidiadau i greu Arbedion Effeithlonrwydd yn y CGC, gwneir £6m o arbedion rheolaidd blynyddol yn 2017-18, a £5.4m o arbedion ychwanegol yn 2018-19.

4. Ers hynny, cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol â'r tair undeb llafur a gydnabyddir. Roedd yr Is-Ganghellor wedi rhoi'r holl wybodaeth am y trafodaethau wrth iddynt fynd rhagddynt i Gadeirydd y Cyngor, a rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mai 2017.

5. Mae Gweithrediaeth y Brifysgol yn awr yn gweithio gyda'r Undebau Llafur ar gydgytundeb posibl. Er y byddai cytundeb o'r fath yn sicrhau bod yr holl arbedion rheolaidd angenrheidiol yn cael eu gwneud erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2018-19, byddai mwy o amser yn cael ei roi i ddatblygu achosion busnes ar gyfer ad-drefnu'r Brifysgol, er mwyn sicrhau bod yr Undebau Llafur yn cael gwneud cyfraniad priodol.

6. Byddai angen i bob cydgytundeb gael ei gymeradwyo trwy bleidlais gan aelodau lleol yr Undebau Llafur. Ond, yn unol â darpariaethau cydfargeinio, y cyngor cyfreithiol oedd y byddai'r canlyniad bron yn sicr yn orfodol i holl aelodau'r staff os oeddent yn aelodau o undeb llafur ai peidio. Pe na châi'r cydgytundeb ei gymeradwyo, byddai'r Weithrediaeth yn symud ymlaen ar unwaith i weithredu'r cynlluniau busnes a oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

CYNGHORWYD

7. Y dylid annog dirwyn y trafodaethau â'r Undebau Llafur i ben er mwyn gallu cynnal y pleidleisiau angenrheidiol erbyn canol mis Gorffennaf 2017 (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

8. Y dylid cymryd camau i wneud y mwyaf o'r arbedion rheolaidd y gellir eu cyflawni trwy ddiswyddiadau gwirfoddol (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

9. Dylid rhoi gwybod i'r Cyngor am yr holl ddatblygiadau dros y misoedd nesaf, a threfnu cynhadledd ffôn dros yr haf os oes angen (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

10. Y dylid cymeradwyo cylch gorchwyl arfaethedig Grŵp CGC i Arolygu'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

11. Y dylid penodi'r Dirprwy Ganghellor Gwerfyl Pierce Jones, a Keith Evans yn aelodau ar y Grŵp Arolygu (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

110. TRAWSNEWID MARCHNATA A DENU MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-126).

NODWYD

1. Cyn y cyfarfod ffurfiol, gwrandawodd aelodau'r Cyngor ar gyflwyniad Dartlet, y cwmni marchnata proffesiynol ymgynghorol a gyflogwyd gan y Brifysgol, ynglŷn â'i ganfyddiadau. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Bob Kerwin, arbenigwr marchnata dros

dro a gyflogwyd gan PA, yn amlinellu'r ffordd y câi argymhellion Dartlet eu gweithredu. Byddai copïau o'r ddau gyflwyniad ar gael trwy SharePoint (COU1617-174 a COU1617-175).

2. Byddai'r Weithrediaeth yn awr yn datblygu Strategaeth Denu Myfyrwyr a Marchnata (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol)). Roedd trefn yn mynd rhagddi hefyd i benodi Cyfarwyddwr Denu Myfyrwyr a Marchnata.

111. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-137).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: ceisiadau gan israddedigion am fynediad yn 2017; ansawdd y dysgu, bodlonrwydd myfyrwyr a dangosyddion cyflogadwyedd; canlyniadau tabl cynghrair y Complete University Guide 2018; ffactorau allanol, yn cynnwys Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, a chais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19; ac amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu Cynllun Strategol y Brifysgol 2017-22.

112. NEWID I'R CYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD AM 2017–18

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-171).

NODWYD

1. Roedd y Brifysgol wedi cyflwyno'i chais am Gynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2017-18 ym mis Ebrill 2016. Cyn i'r cynllun ddod i rym ym mis Medi 2017, roedd CCAUC wedi gofyn i PA gadarnhau unrhyw newidiadau yr hoffai'r brifysgol eu gwneud i'r Cynllun. Roedd yr adroddiad yn cynnig mân newidiadau i'r Cynllun.

CYNGHORWYD

2. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i Gynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

113. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-138).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad y manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: rhagolwg yr alldro am flwyddyn academaidd 2017-18, gan gynnwys goblygiadau yng nghyswllt incwm a gwariant, y fantolen, dangosyddion iechyd ariannol, ac asedau; y gyllideb arfaethedig am 2017-18; ac agweddau ariannol y CGC.

2. Roedd rhagolygon cyfredol ynglŷn â Champws Arloesedd a Menter Aberystwyth yn proffwydo gorwario. Cyllideb sefydlog oedd ar gael ar gyfer y prosiect cyfalaf hwn, ac roedd camau'n cael eu cymryd i gadw o fewn i'r gyllideb honno.

114. CYLLIDEB 2017-18, A RHAGOLYGON ARIANNOL Y BLYNYDDOEDD TAN 2021.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1617-139).

NODWYD

1. Seiliwyd cyllideb arfaethedig 2017-18 - sef blwyddyn gyntaf y CGC a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 26 Ebrill 2017 - ar ddim cynnydd yn niferoedd myfyrwyr, ac ar yr arbedion rheolaidd y byddai'n rhaid eu gwneud yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod, yn unol â'r CGC.

2. Ystyriwyd y gyllideb ddrafft gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mai 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylid diwygio'r atodiad ar flaenoriaethau cyllid cyfalaf heb flaenoriaethu rhwng prosiectau â'i gilydd. Felly, dylai'r gwariant a gynigir yn 2017-18 ddarparu ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol, i'w nodi fel cyfanswm tybiedig heb ei neilltuo'n benodol, ochr yn ochr â rhestr o'r prosiectau cyfalaf a nodwyd gan y Cyngor eisoes.

CYNGHORWYD

3. Cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig am 2017-18, yn amodol ar dynnu allan tudalen 13 a rhoi tudalen 9 Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid i'r Cyngor yn ei lle (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid).

115. COD YMARFER: CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu), yn ymgorffori cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi (COU1617-140).

NODWYD

1. Mewn cyfarfod Prifysgolion Cymru yn ddiweddar, pwysleisiwyd pwysigrwydd dangos cynnydd cadarnhaol tuag at achredu cyflog byw ym mhob sefydliad, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu pecyn cyflawn Diamond. Anogwyd Prifysgolion Cymru felly i fabwysiadu'r Cod Ymarfer, sy'n cynnwys ymrwymiad i ystyried talu Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw fel isafswm i'r holl staff.

CYNGHORWYD

2. Y dylai PA fabwysiadu'r Cod Ymarfer, cynnal asesiad i weld pa ymrwymiadau mae'r sefydliad eisoes yn cydymffurfio â hwy, a datblygu cynllun gweithredu yn nodi'r camau pellach sydd angen eu cymryd i gydymffurfio â gweddill yr ymrwymiadau (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu).

116. PRIFYSGOL ABERYSTWYTH MAWRISIWS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); a'r Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-141).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi datblygiad cynllun busnes gwreiddiol y fenter; yn arolygu perfformiad cyfredol y gangen-gampws, a pherthynas waith PA â'r BCL. Nodwyd tri dewis ar gyfer y dyfodol, sydd i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â'r goblygiadau cysylltiedig â phob un.

2. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mai 2017, lle'r oedd yr aelodau wedi argymell camau gweithredu i'r corff llywodraethu.

CYNGHORWYD

3. Y dylid rhyddhau hysbysiad, fel y nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu).

4. Y dylai'r Is-Ganghellor gyflwyno adroddiad pellach i'r corff llywodraethu yn ei ddiwrnod encil ar 04 Hydref ynglŷn â dewisiadau ar gyfer y gangen-gampws i'r dyfodol (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

5. Y dylid sefydlu is-grŵp yn cynnwys: y Trysorydd, yr Is-Ganghellor, y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu), Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol), Mr Ian MacEachern, Cyfarwyddwr Cyllid, a Chyfarwyddwr Athrofa Busnes a'r Gyfraith, er mwyn cynghori ar ddatblygiad adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol)).

117. PRYDLES FFERM TRAWSCOED

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Datblygu'r Ystadau (COU1617-142).

NODWYD

1. Ar 20 Ebrill 2015, roedd y Cyngor wedi sefydlu is-grŵp i gadw golwg ar y diwydrwydd dyladwy i benawdau'r telerau a phrydles cyfnod hwy ar gyfer tir yn Nhrawscoed, ac i ddod ag argymhelliad gerbron i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

2. Roedd y trafodaethau â Chyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol wedi dod i'r fan lle'r roedd y Brifysgol mewn sefyllfa i ofyn am gymeradwyaeth ar gyfer prydles tymor hwy. Cafodd y brydles arfaethedig ei hystyried gan yr is-grŵp a oedd yn hapus i argymell y dylai'r Cyngor ei chymeradwyo.

CYNGHORWYD

3. Y dylai'r Brifysgol gytuno ar brydles tymor hir i'r tir yn Nhrawscoed (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Datblygu'r Ystadau).

118. GWAREDU ASEDAU NAD OES EU HANGEN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Datblygu'r Ystadau; a Rheolwr Defnydd o Ofod (COU1617-143).

NODWYD

1. Nodai'r adroddiad y prisiadau a gafwyd ynglŷn â'r asedau tir ac adeiladau y cytunwyd nad oedd eu hangen ar gyfer datblygiad strategol yn y dyfodol. Byddai'r brifysgol yn ail-fuddsoddi'r incwm a ddeilliai o werthu'r asedau dan sylw mewn asedau newydd a / neu adnewyddu asedau.

2. Ystyriwyd fersiwn gynharach o'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mai 2017, lle'r oedd yr aelodau wedi argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo gwaredu'r asedau dan sylw.

CYNGHORWYD

3. Cymeradwyo gwaredu'r asedau, a datblygu strategaeth farchnata gynhwysfawr i wneud y mwyaf o'r incwm sy'n deillio o werthiant bob un (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Datblygu'r Ystadau).

119. CAMPWS YMCHWIL AC ARLOESEDD ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Prosiect y Campws Arloesedd (COU1617-144).

NODWYD

1. Ar 07 Ebrill 2017, cafodd y Cyngor wybod bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn i'r Brifysgol ddod i gytundeb Adran 106 o dan Ddeddf Cynllunio Cyngor a Thref 1990 er mwyn cael y caniatâd cynllunio angenrheidiol.

2. Ar ôl trafod ymhellach â'r awdurdodau Cynllunio Lleol, a Phriffyrdd, paratowyd drafft o gytundeb Adran 106. Cafodd hyn ei archwilio gan yr is-grŵp a sefydlwyd i'r diben hwn, ac argymhellwyd bod y corff llywodraethu'n ymrwymo i'r cytundeb arfaethedig.

3. Roedd ymgynghorwyr cyfreithiol y Brifysgol wedi cadarnhau ar wahân na fyddai angen caniatâd y Comisiwn Elusennau er mwyn i PA ymrwymo i'r cytundeb, a fyddai'n golygu 'gwaredu' peth tir er mwyn ehangu ffordd yr C1010 yng Ngogerddan.

CYNGHORWYD

4. Y dylai'r Brifysgol ymrwymo i gytundeb Adran 106 a'r cytundeb Neilltuo, yn amodol ar drafod ag Undeb Amaethwyr Cymru (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Datblygu'r Ystâd); a Chyfarwyddwr prosiect y Campws Arloesedd).

120. HYFFORDDIANT MILFEDDYGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (COU1617-145).

NODWYD

1. Ers rhai misoedd bu PA yn trafod â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (CMB) y posibiliadau ar gyfer darparu hyfforddiant milfeddygol trwy fodel cydweithrediadol. Roedd y trafodaethau hyn wedi cynnwys cyfarfod cadarnhaol iawn yn Llundain ar 02 Mai 2017 rhwng Cadeirydd Cyngor PA, yr Is-Ganghellor, a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); a Chadeirydd Cyngor CMB a chynrychiolwyr eraill o blith staff uwch.

2. Yn awr, roedd y prosiect yn cael ei symud ymlaen gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol), oherwydd natur gydweithrediadol y fenter arfaethedig. Byddai cynllun busnes yn cael ei baratoi a fyddai, ar ôl ei gymeradwyo, yn ein rhoi mewn sefyllfa i lofnodi Memorandwm o Gytundeb. Byddai trafodaethau â'r CMB am y cynllun busnes yn dechrau ar 30 Mehefin 2017.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo mewn egwyddor y cynigion i sefydlu Memorandwm o Gytundeb gyda'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, a dechrau ar y prosesau cymeradwyo academaidd angenrheidiol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol)).

121. CYNNIG AM BROSIECT CANOLFAN YMCHWIL ARLOESI, ARBROFI A PHEIRIANNEG SBECTRWM RADIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (COU1617-146).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnig prosiect Canolfan Ymchwil a ddatblygwyd gyda chwmni QinetiQ a chynrychiolwyr Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Byddai'r Ganolfan - a gyllidir yn bennaf gyda chyllid Ewropeaidd - yn adeiladu cymhwysedd ym maes arloesi sbectrwm, ac yn datblygu ymhellach y berthynas rhwng ymchwilwyr a busnesau ar draws y sector hwn.

2. Rhoddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (SCEC) gymeradwyaeth yn ddiweddar i symud ymlaen â'r cais, a thrwy hynny gydnabod potensial y Ganolfan i greu swyddi, gan gynnwys staff gweinyddol, ymchwil a thechnegol ar gyfer rhedeg a chynnal a chadw'r Ganolfan.

CYNGHORWYD

3. Y dylid datblygu cynllun busnes ar gyfer y Ganolfan Ymchwil arfaethedig, i'w adolygu gan Weithrediaeth y Brifysgol cyn ei gyflwyno i SCEC (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil)):

122. MATERION LLYWODRAETHU

1. <u>Maint a Chyfansoddiad y Cyngor</u>

   DERBYNIWYD

   Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-147).

   NODWYD

   1. Mewn cyfarfod ar 23 Mai 2017, yn ôl cais gan y Cyngor roedd y Pwyllgor Siarter wedi ailystyried ei drafodaethau blaenorol ar faint a ffurf y Cyngor yn y dyfodol. Yn y cyfarfod hwnnw daeth yr aelodau i ddealltwriaeth unfrydol ac roedd yn awr yn cynnig Cyngor o 18 aelod.

   2. Nodai'r adroddiad sut y gellid mynd ati i leihau nifer aelodau'r Cyngor. Cafodd y cynigion hyn eu hystyried gan y Senedd ar 14 Mehefin 2017, lle'r oedd yr aelodau wedi cefnogi'r dull a gynigiwyd.

   3. Gellid torri i lawr yn raddol ar faint y Cyngor dros y flwyddyn academaidd i ddod, wrth i gyfleoedd addas godi (er enghraifft, unigolion yn dod i ddiwedd eu cyfnod o wasanaeth ar y corff llywodraethu).

CYNGHORWYD

4. Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i faint a chyfansoddiad y Cyngor, a chymryd camau i symud i'r model newydd o 01 Awst 2017 ymlaen (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Ordinhadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-148).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2017, roedd y Pwyllgor Siarter wedi ystyried diwygiadau i Ordinhadau'r Brifysgol yn dilyn arolwg a wnaed o'r darpariaethau cyfredol gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Roedd nifer o ddiwygiadau'n cael eu cynnig, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Cafodd y cynigion hyn eu hystyried gan y Senedd ar 14 Mehefin 2017, lle'r oedd yr aelodau wedi cefnogi'r diwygiadau a gynigiwyd.

CYNGHORWYD

2. Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Ordinhadau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Rheolau Sefydlog

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-149).

NODWYD

1. Yn rhan o'r arolwg diweddaraf o'u cylchoedd gorchwyl, roedd y Pwyllgor Siarter a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch wedi cynnig diwygiadau i'w cylchoedd gorchwyl. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi eu nodi yn yr adroddiad.

CYNGHORWYD

2. Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r cylchoedd gorchwyl (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Penodiadau i is-bwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-150).

NODWYD

1. Ar 10 Mawrth 2017, roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gofyn i'r Cyngor am gael aelod arall o'r Cyngor i wasanaethu ar y pwyllgor. Gellid gwneud hyn heb ddiwygio cylch gorchwyl y pwyllgor. Ond, o drafod ymhellach â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor gwelwyd y byddai angen traws gynrychiolaeth rhwng aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth.

2. Mae CCAUC yn caniatáu traws gynrychiolaeth rhwng y ddau bwyllgor cyhyd â'i fod yn gyfyngedig i un aelod, a'i fod yn cael ei wneud trwy benderfyniad clir a gofnodir, sy'n cyflwyno rhesymeg y penderfyniad. Nid yw cadeiryddion y

pwyllgorau yn cael gwasanaethu ar y ddau bwyllgor, ac ni chaiff Cadeirydd y Cyngor wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio a Risg.

3. Cafodd y mater ei ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau rhwng 22 a 26 Mai 2017, ac fe gytunodd yr aelodau i argymell penodi Ian MacEachern. Byddai'r penodiad hwn yn sicrhau bod cydbwysedd addas o sgiliau ymhlith aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

CYNGHORWYD

4. Penodi Ian MacEachern i'r Pwyllgor Archwilio a Risg am dymor o dair blynedd, yn dechrau ar 01 Awst, 2017 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

123. AILBENODI CYFARWYDDWYR ATHROFEYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1617-151).

NODWYD

1. Roedd cyfnod cychwynnol yr Athro Neil Glasser a'r Athro Qiang Shen yn Gyfarwyddwyr Athrofa yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2017. Yn unol ag Ordinhad 24, roedd y ddau ar dir i'w hailbenodi am gyfnod pellach o bedair blynedd yr un.

2. Ar ôl trafod â'r ddau, roedd yr Is-Ganghellor yn argymell i'r Cyngor eu hailbenodi.

CYNGHORWYD

3. Y dylid ailbenodi'r Athro Neil Glasser a'r Athro Qiang Shen yn Gyfarwyddwyr Athrofa am bedair blynedd o 01 Awst 2017 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol).

124. POLISI DERBYN RHODDION

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni; ac Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-152).

NODWYD

1. Yn rhan o'r gwaith i gydymffurfio â Chod Llywodraethu Addysg Uwch CUC 2014, cafodd cynnwys polisi'r brifysgol ynghylch Derbyn Rhoddion - sydd i'w weld fel atodiad i'r Gweithdrefnau Ariannol - ei adolygu. Cafodd nifer o ddiwygiadau i'r polisi eu cynnig, wedi'u seilio ar arfer gorau'r sector, a chynigiwyd y dylid dileu'r atodiad i'r Gweithdrefnau Ariannol a pharatoi Polisi Derbyn Rhoddion annibynnol yn ei le.

2. Cafodd y Polisi Derbyn Rhoddion ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mai 2017, a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 14 Mehefin, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cymeradwyo'r polisi arfaethedig (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

125. RHEOLIADAU ARIANNOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Eiddig Morgan) (FSC1617-098).

NODWYD

1. Roedd nifer o fân newidiadau'n cael eu cynnig i'r Rheoliadau Ariannol yn rhan o arolwg gweithredol blynyddol i sicrhau bod y ddogfen yn rhoi cyfarwyddyd clir a chadarn ar reolaethau ariannol yn y Brifysgol. Cafodd copi yn dangos y diwygiadau arfaethedig wedi'u marcio arno ei roi ar safle Sharepoint ar gyfer y Cyngor (COU1617-167).

2. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 24 Mai 2017, a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 14 Mehefin, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Dros Dro).

126. CAFFAEL ABER-BANGOR CYF

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Rheolwr Contractau a Gweithrediadau (COU1617-154).

NODWYD

1. O dan nawdd y Gynghrair Strategol rhwng PA a Phrifysgol Bangor, sefydlwyd cwmni ar y cyd yn 2014 fel cyfrwng i gyflawni busnes ymgynghori'r prifysgolion. Roedd gan y naill sefydliad a'r llall un cyfranddaliad yn y cwmni.

2. Yn dilyn adolygiad rhwng y timau Ymchwil a Menter, roedd Prifysgol Bangor wedi cytuno i dynnu allan o'r cwmni trwy werthu ei chyfranddaliad.

CYNGHORWYD

3. Y dylai Prifysgol Aberystwyth brynu cyfranddaliad Prifysgol Bangor yn Aber-Bangor Cyf am y pris a nodwyd yn yr adroddiad, er mwyn dod yn unig berchennog y cwmni (**GWEITHREDU:** Y Rheolwr Contractau a Gweithrediadau).

127. SICRHAU ANSAWDD: DATGANIAD BLYNYDDOL I'R CYNGOR

DERBYNIWYD

Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd (COU1617-155).

NODWYD

1. Mae'r fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd i Gymru yn cynnwys mwy o bwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethol wrth ddarparu sicrwydd safonau ac ansawdd. Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r drefn a gynigir ar gyfer paratoi'r Datganiad o Sicrwydd Ansawdd bob hydref, i'w ystyried gan y Bwrdd Academaidd, y Senedd, ac yn y pen draw, gan y Cyngor.

2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Senedd ar 14 Mehefin 2017, lle'r oedd yr aelodau wedi pwysleisio pa mor bwysig oedd hi i aelodau'r Cyngor fod yn hollol gyfarwydd â'r gofynion newydd. Gofynnodd y Senedd hefyd pa hyfforddiant a ellid ei ddarparu i'r Cyngor yn hyn o beth, a chan sawl aelod o'r Cyngor y mae profiad uniongyrchol a diweddar o Addysg Uwch. Byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Enwebiadau yn rhan o'i arolwg blynyddol o fynegai sgiliau'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

CYNGHORWYD

3. Y dylid cadarnhau'r drefn a gynigiwyd ar gyfer datblygu Datganiad blynyddol o Sicrwydd Ansawdd (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion).

128. CYNLLUN BIOAMRYWIAETH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, yn ymgorffori Cynllun Bioamrywiaeth arfaethedig (COU1617-156).

NODWYD

1. Cynhyrchwyd y Cynllun Bioamrywiaeth yn unol â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r bwriad yw darparu manylion o amcanion strategol y Brifysgol o ran cadw a gwella bioamrywiaeth a rheolaeth amgylcheddol.

2. Cafodd y Cynllun ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar 9 Mehefin 2017. Ar gais y Pwyllgor, gofynnwyd hefyd am adborth oddi wrth Dr Emyr Roberts, er mwyn gwella mwy ar y fersiwn a gafodd ei gylchredeg i'r Cyngor.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cymeradwyo'r Cynllun Bioamrywiaeth (**GWEITHREDU:** Y Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

129. CYTUNDEB PERTHYNAS GYDAG UNDEB Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-157).

NODWYD

1. Adolygwyd Y Cytundeb Perthynas mewn ymgynghoriad â darpar Swyddog Datblygu'r Undeb a'r Is-Ganghellor. Ar wahân i ddiweddaru'r llofnodion, ni gynigiwyd newidiadau pellach i'r cytundeb fel y saif ar hyn o bryd.

CYNGHORWYD

2. Y dylid cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol am y flwyddyn academaidd i ddod, yn amodol ar ddiweddaru'r llofnodion (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

130. AILBENODI ARCHWILWYR MEWNOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-158).

NODWYD

1. Ar 07 Ebrill, cafodd y Cyngor wybod bod y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2017, wedi cymeradwyo dull arfaethedig o gaffael archwiliad a fyddai'n cynnwys prosesau caffael ar gyfer archwiliad mewnol, archwiliad allanol a gwaith treth ar yr un pryd.

2. Cafodd aelodau'r pwyllgor ragor o wybodaeth ar y mater yn eu cyfarfod ar 09 Mehefin 2017, lle'r eglurwyd bod y contract cyfredol gyda Deloitte ar gyfer archwilio mewnol yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2017. Awgrymodd yr aelodau i'r Cyngor felly y dylid ymestyn penodiad Deloitte fel archwilwyr mewnol am flwyddyn arall, mewn contract newydd tan 31 Gorffennaf 2018.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cymeradwyo estyniad o flwyddyn i gontract cyfredol yr archwilwyr mewnol Deloitte (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Dros Dro).

131. ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr (COU1617-159).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

132. IECHYD A DIOGELWCH: TUEDDIADAU DIGWYDDIADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1617-160).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn nodi'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r datblygiadau sy'n deillio o ddigwyddiadau a gofnodwyd ac a dderbyniwyd gan yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn y cyfnod o fis Ionawr tan fis Mai 2017.

133. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-161).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

134. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-162).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor:

    1. y defnyddiodd y Cadeirydd y Pwerau Gweithredol y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 6.11; neu

    2. yr oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.

2. Y materion a gymeradwywyd trwy Gamau Gweithredol oedd:

    1. cyflwyniad y Brifysgol i Ymgynghoriad y Cyngor Cyllido ar ddefnyddio Cyfarwyddyd Addysg Trawswladol;

    2. cyfansoddiad yr is-grŵp a sefydlwyd i edrych ar ddrafft cytundeb Adran 106 yng nghyswllt datblygiad y Campws Arloesedd;

    3. cynnydd yng nghyllideb prosiect yr Hen Goleg; ac

    4. enwebiad am ddyfarniad er anrhydedd.

3. Y materion a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor trwy ohebiaeth oedd:

    1. yr argymhellion a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor ar 07 Ebrill lle na chafwyd cworwm;

    2. cais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad am 2018-19.

135. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1617-163):

1. Pwyllgor Archwilio a Risg (09 Mehefin 2017);

2. Y Senedd (14 Mehefin 2017);

3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (24 Mawrth 2017);

4. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (26 Mai 2017);

5. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (29 Mawrth 2017);

6. Pwyllgor Siarter (23 Mai 2017);

7. Pwyllgor Enwebiadau - Cyfarfod Arbennig (24 Mawrth 2017); a

8. Grŵp Gweithredol y Brifysgol (21 Mawrth, 04 Ebrill, 25 Ebrill, 16 Mai, 23 Mai, a 06 Mehefin 2017).

NODWYD

9. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

136. UNRHYW FATER ARALL

1. <u>Ffarwelio</u>

    Roedd y canlynol yn bresennol yn eu cyfarfod olaf o'r Cyngor. Diolchwyd i bob un am eu cyfraniadau yn ystod eu tymhorau:

        1. Mr Daniel Benham, Cyfarwyddwr Cyllid;

        2. Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA;

        3. Yr Athro Neil Glasser, Aelod o'r Senedd;

        4. Ms Lauren Marks, Llywydd UMAber;

5. Dr Jenny Mathers; aelod o'r Senedd; a

6. Ms Jackie Sayce, aelod staff an-academaidd.